# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd T.H.Beedle** **Ward: Dwyrain Maesteg**

## Plaid: ANNIBYNNOL

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Dwyrain Maesteg ar 5 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol ymholiadau niferus gan etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Rwyf wedi bod yn weithgar iawn yn fy mlwyddyn gyntaf fel cynghorydd bwrdeistref sirol, fel aelod sy'n gwasanaethu ar nifer o bwyllgorau, is-bwyllgorau a sesiynau hyfforddi'r cyngor, ac ymweliadau amrywiol gan gynnwys bod yn rhan o rota tîm ymweld. Rwyf wedi llwyddo i gynnal lefel uchel o bresenoldeb.

Mae fy ngweithgareddau'n cynnwys yr amlwg, mynd i'r Cyngor llawn a'm holl bwyllgorau ac is-bwyllgorau a restrir, ymateb i alwadau ffôn, negeseuon e-bost, negeseuon testun a negeseuon cyfryngau cymdeithasol, a galwyr drws ar faterion y mae fy etholwyr wedi'u codi gyda mi. Wedyn rwy'n cwrdd â'm hetholwyr i nodi'r materion yn llawn, a lle na allaf ddatrys y mater yn uniongyrchol, rwy'n defnyddio system atgyfeirio'r cyngor, a chyswllt uniongyrchol â swyddogion.

Rwyf hefyd yn cysylltu ag asiantaethau eraill ar faterion nad ydynt yn faterion sy'n ymwneud â'r cyngor, ac eirioli ar ran yr etholwyr hynny.

Rwy'n cynnal cymorthfeydd ad hoc, ac yn cysylltu â chynghorwyr tref fy ward, a'r tîm heddlu lleol.

Rwyf hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'm cyd-gynghorydd ward, a chyda'n gilydd rydym wedi mynd i'r afael â llawer o faterion, a rhannu gwaith achos anodd.

Rwyf hefyd wedi cyflwyno cynnig i'r Cyngor yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi mynd i sawl cyfarfod safle gyda swyddogion cyngor a chyd-gynghorwyr i drafod problemau/materion gan drigolion gan gynnwys materion diogelwch ar y ffyrdd, parcio gwrthgymdeithasol a pheryglus o amgylch ysgolion, cyffyrdd, ac arosfannau bysiau, materion aflonyddwch gan yr ieuenctid, llifogydd, a choed bargodol ac uchel, goleuadau stryd, tyllau yn y ffordd ac ati.

Rwy'n cysylltu â'r tîm plismona yn y gymdogaeth, a darparwyr cyfleustodau, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ac asiantaethau eraill ar faterion sy'n effeithio ar fy etholwyr.

Rwyf hefyd yn teithio o amgylch y ward lle y gwyddys bod mannau lle ceir tipio anghyfreithlon, ac yn gwneud atgyfeiriadau perthnasol i lanhau'r ardal yr effeithir arni, mae'r flwyddyn hon yn enwedig wedi bod yn brysur iawn gyda materion yn ymwneud â sbwriel ac ailgylchu, tipio anghyfreithlon a glanhau strydoedd yn gyffredinol.

Mae fy nghydweithiwr ward a minnau wedi cwrdd â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd safle ar faterion atal llifogydd i ystad tai gerllaw, ac rydym wedi negodi gosod System GPS rhybudd llifogydd cynnar yn llwyddiannus, a ffensio cwlfert.

Rwyf wedi llwyddo i ymgymryd â'r holl sesiynau hyfforddi datblygu aelodau.

Rwyf hefyd wedi defnyddio fy Nghronfa Gweithredu yn y Gymuned i ddarparu diogelwch chwaraewr a gwylwyr mewn maes chwaraeon lleol.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Mae gennyf ddiddordeb brwd mewn addysg plant, ac rwy'n llywodraethwr hir sefydledig 25 mlynedd yn Ysgol Gyfun Maesteg. Rwyf hefyd yn gadeirydd llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Cwmfelin, cadeirydd etholedig Cymdeithas Llywodraethwyr Pen-y-bont ar Ogwr, aelod bwrdd o Lywodraethwyr Cymru, ac yn gwasanaethu ar sawl ffrwd waith sy'n ymwneud ag addysg yn ein hawdurdod.

Rwyf hefyd yn ysgrifennydd y rhandiroedd lleol.

Rwy'n gadeirydd adran aelodau ymddeoledig Unsain Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Rwy'n aelod o Bwyllgor Aelodau Ymddeoledig Rhanbarthol Unsain.

Rwy'n aelod o bwyllgor fy nghôr meibion lleol

**Y Cynghorydd** T.H.Beedle **Dyddiad:** 06:05:18